

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

2 Chwefror 2022

Annwyl Russell

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd a Gofal, a osodwyd ar 16 Rhagfyr 2021.

Disodlwyd y safbwynt gan nifer o welliannau a wnaed i'r Bil a dau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a osodwyd ar 17 Rhagfyr 2021 a 28 Ionawr 2022 yn y drefn honno. Mae'r llythyr hwn felly'n adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf ar y Bil wrth ymateb i argymhellion y Pwyllgor.

Yn gyntaf, croesawaf gadarnhad y Pwyllgor nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r Senedd roi ei gydsyniad i gynnwys y canlynol yn y Bil:

- Cymal 77 (Cymal 75 gynt) (darpariaethau tacluso ac ati ynghylch cyfrifon rhai cyrff GIG);
- Cymal 80 (Cymal 78 gynt) (Cleifion ysbyty ag anghenion gofal a chymorth: diddymu ac ati);
- Cymal 87 (Cymal 85 gynt) (Systemau gwybodaeth meddyginiaethau) fel y'i diwygiwyd gan Dŷ'r Cyffredin ar 23 Tachwedd 2021;
- Cymal 142 (cymal 123 gynt) (rheoleiddio gofal iechyd a phroffesiynau cysylltiedig) fel y'i diwygiwyd gan Dŷ'r Cyffredin ar 23 Tachwedd 2021; a
- Cymal 146 (cymal 127 gynt) (Gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr - pŵer i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir).

Nodaf farn y Pwyllgor ynghylch cymalau 88-94 (cymalau 86-92 gynt): Trosglwyddo Swyddogaethau Cyrff Hyd Braich. Rwyf hefyd o'r farn y bydd y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 24 Ionawr 2022, os cânt eu pasio, yn mynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor ynghylch y cymalau hyn. Nodir manylion y gwelliannau yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) a osodwyd ar 28 Ionawr 2022.

Gweler fy ymatebion i'ch argymhellion penodol isod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhellion 1 a 2 - Cymal 136 (Cymal 120 gynt): Trefniadau Gofal Iechyd Rhyngwladol

Argymhelliad 1

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn gofyn i welliant gael ei gyflwyno i gynnwys prawf clir a chymesur ar wyneb y Bil a fyddai'n gymwys fel 'amgylchiadau eithriadol' at ddibenion y swm neu'r math o ofal iechyd y gellir ei ariannu y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol.

Ymateb

Ar hyn o bryd mae Adran 1 o Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 (HEEASAA) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud taliadau, a threfnu i daliadau gael eu gwneud, mewn perthynas â chost gofal iechyd a ddarperir mewn Gwladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu yn y Swistir.

Bydd cymal 136 (cymal 120 gynt) o'r Bil yn dileu'r pŵer yn adran 1 o HEEASAA ac yn ei ddisodli â phwerau gwneud rheoliadau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau (a) er mwyn gweithredu cytundeb gofal iechyd (gan gynnwys gwneud taliadau) rhwng y DU a naill ai gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU neu sefydliad rhyngwladol, a (b) awdurdodi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud taliad mewn perthynas â gofal iechyd a ddarperir heblaw o dan gytundeb gofal iechyd, mewn gwlad neu diriogaeth y mae gan y DU gytundeb gofal iechyd cyfatebol â hi, ond dim ond pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y gellir cyfiawnhau'r taliad o ganlyniad i amgylchiadau eithriadol.

Diben y pŵer sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ariannu gofal iechyd y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol mewn amgylchiadau eithriadol yw cynorthwyo Llywodraeth y DU i gefnogi anghenion gofal iechyd trigolion Prydain pan fyddant dramor mewn amgylchiadau a allai fel arall ddisgyn y tu allan i gytundeb gofal iechyd cyfatebol o drwch blewyn.

Yn flaenorol, er enghraifft, mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r pwerau presennol o dan HEEASAA i ddarparu cymorth gofal iechyd meddwl mewn argyfwng i unigolyn dan oed yn yr UE pan ddywedodd yr Aelod-wladwriaeth nad oedd y driniaeth wedi'i chynnwys o dan gynllun Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewrop (EHIC). Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ariannu triniaeth yn yr UE ar gyfer gefeilliaid gyda haemangiomâu babandod a gafodd eu geni i drigolion o'r DU ond nad oeddent yn gallu teithio'n ôl i'r DU yn hawdd oherwydd cyfyngiadau teithio COVID-19 a'r risgiau o deithio ar y pryd. Ni fyddent fel arall wedi bod o fewn cwmpas y darpariaethau triniaeth wedi'i chynllunio yng nghytundebau gofal iechyd cyfatebol yr UE gan y gallent fod wedi cael y driniaeth yn y DU heb oedi diangen pe baent wedi bod yn y DU ar y pryd.

Mae taliadau am ofal iechyd y tu allan i'r DU yn fater a gedwir yn ôl gan ei fod yn ymwneud â lles pobl y tu allan i'r DU, ac nid yw'n effeithio yn sylweddol ar ddarpariaeth gofal iechyd domestig yn y DU nac yn ymwneud ag o; mater o gysylltiadau rhyngwladol yw p'un a yw'r DU yn penderfynu trefnu ac ariannu gofal iechyd i bobl y tu allan i'r DU ac i ba raddau.

Mae amgylchiadau eithriadol yn debygol o fod yn rhai lle byddai gwrthod ariannu triniaeth gofal iechyd yn arwain at ganlyniadau llym, amhosibl eu cyfiawnhau i'r unigolyn, ac o ganlyniad ni fyddai gwrthod cais am gyllid yn gymesur. Bydd penderfynu a ellir cyfiawnhau taliad o ganlyniad i amgylchiadau eithriadol o reidrwydd yn gofyn am daro cydbwysedd rhwng unrhyw fuddiannau cyhoeddus ac unigol. Byddai ceisio diffinio hyn ymhellach mewn deddfwriaeth sylfaenol drwy gyfeirio at swm neu fath o ofal iechyd y gellir ei ariannu yn

cyfyngu'n ormodol ar allu'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer y disgrisiwn hwn ac yn llesteirio'r gallu i gynorthwyo trigolion Prydain pan fyddant ei angen fwyaf.

Felly, yn fy marn i, nid yw'n briodol i osod prawf clir a chymesur ar wyneb y Bil ar gyfer yr hyn a fyddai'n gymwys fel 'amgylchiadau eithriadol' at ddibenion y swm neu'r math o ofal iechyd y gellir ei ariannu y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol, gan y gallai hyn gael effaith niweidiol neu gyfyngol ar y gallu i ddarparu cymorth pan fo'i angen.

Argymhelliad 2

Cyn gofyn i'r Senedd benderfynu a ddylai roi ei chydsyniad i gynnwys cymal 120 (cytundebau gofal iechyd rhyngwladol) yn y Bil ai peidio, dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod pob Aelod wedi cael copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth terfynol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019.

Ymateb

Mae'n bleser gennyf amgáu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ofal iechyd cyfatebol gyda'r llythyr hwn i'w ystyried gan y Pwyllgor. Y mae wedi'i ddiwygio yng ngoleuni darpariaethau'r Bil. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i gytuno gan bob un o'r pedair gwlad. Bydd y Pwyllgor am nodi nad yw'r cysylltiadau ehangach sy'n ymwneud â'r trefniadau llywodraethu cysylltiadau rhynglywodraethol newydd wedi'u cynnwys eto yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ond eu bod yn cael eu hystyried. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r trefniadau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd maes o law.

Argymhelliad 3 - Cymal 142 (Cymal 123 gynt): Rheoleiddio Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig

Argymhelliad 3

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi pa ddadansoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru o'r risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â rheoleiddio, neu beidio â rheoleiddio, uwch arweinwyr a rheolwyr iechyd yng Nghymru, a beth yw'r sail resymegol dros ei phenderfyniad i beidio â chyflwyno rheoliad o'r fath

Ymateb

Mae cymal 142 (cymal 123 gynt) wedi ei ddiwygio i ddarparu na fydd unrhyw argymhelliad yn cael ei wneud i'w Mawrhydi i wneud Gorchymyn yn y Cyngor o dan adran 60 o Ddeddf Iechyd 1999 sy'n ymwneud ag unrhyw grŵp o weithwyr, nad ydynt yn weithwyr proffesiynol ond sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion, pan fo'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i'r ddarpariaeth honno.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn â rheoleiddio'r gweithwyr hyn (sy'n cynnwys uwch arweinwyr a rheolwyr iechyd yng Nghymru) drwy Orchymyn yn y Cyngor. Pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu rheoleiddio mewn perthynas â gweithwyr proffesiynol o'r fath yn y dyfodol, a phe bai hyn yn gymwys yng Nghymru hefyd, yna bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried a ddylid cydsynio i Orchymyn sy'n gwneud darpariaeth o'r fath ai peidio. Byddai penderfyniad o'r fath yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth berthnasol ynglŷn â risgiau, costau a manteision cymhwyso'r rheoliadau yng Nghymru.

Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i reoleiddio uwch arweinwyr a rheolwyr iechyd yng Nghymru ac mae cyfluniad y GIG yng Nghymru yn golygu y bydd hyn yn annhebygol yn y dyfodol. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi nodi nad oes ganddi unrhyw gynlluniau penodol i reoleiddio'r grŵp hwn o weithwyr yn y dyfodol agos.

Yr wyf yn fodlon bod y gwelliant hwn yn mynd i'r afael â'n pryderon ynghylch y ddarpariaeth hon ac o ganlyniad gallaf gefnogi cymal hwn y Bil yn awr.

Argymhelliad 4 - Cymalau 149, 144 a 91 (cymalau 89, 125 a 130 gynt): Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddfwriaeth y Senedd

Argymhelliad 4

Cyn gofyn i'r Senedd a yw'n dymuno rhoi ei chydsyniad i'r Bil, dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o wybodaeth am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y pwerau diwygio canlyniadol yn adran 89, adran 125 ac adran 130 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd), gan gynnwys, yn ei barn hi, a yw'r sicrwydd a gafodd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r defnydd arfaethedig o'r pwerau yn lleihau'r risgiau cysylltiedig i lefelau derbyniol.

Ymateb

Mae'r cymalau hyn yn rhoi'r pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i'r Bil. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n addasu fel arall unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur Senedd Cymru.

Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) a osodwyd ar 28 Ionawr 2022, rwyf i a'm swyddogion wedi cyfarfod â'r Gweinidog Gwladol dros lechyd, Edward Argar AS a'i swyddogion ar sawl achlysur i drafod y darpariaethau hyn. Mae Llywodraeth y DU o'r farn mai cymalau safonol yw'r rhain ac mae'n wir fod Cymru yn yr un modd yn defnyddio pwerau yn Neddfau Senedd Cymru i wneud diwygiadau canlyniadol i deddfwriaeth Llywodraeth y DU.

Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi rhoi enghreifftiau o sut y gellir defnyddio'r pwerau hyn. Mae'n debygol mai mân ddiwygiadau fyddai'r rhain, er enghraifft newid enw sefydliad yn Lloegr y cyfeirir ato yn neddfwriaeth Senedd Cymru lle mae swyddogaethau wedi'u trosglwyddo. Mae'r Gweinidog Gwladol dros lechyd hefyd wedi rhoi ymrwymiad yn ysgrifenedig i wneud Datganiad Blwch Dogfennau mewn perthynas â chymalau 91 a 149, yn ymdrin â sut y gellid defnyddio'r pwerau hyn.

Mae cymal 144 yn cyfeirio at Atodlen 17 sy'n diwygio Deddf Cyfathrebiadau 2003 i gyfyngu ar hysbysebu rhai cynhyrchion bwyd a diod mewn perthynas â'r DU. Ymdrinnir â'r Cymal a'r Atodlen yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf ar y Bil. Er bod y cymal hwn hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi newid canlyniadol i deddfwriaeth y Senedd, nid yw Llywodraeth y DU wedi ei nodi fel cymal sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ac felly ni fydd yn cael ei gynnwys o fewn y geiriad y Datganiad Blwch Dogfennau. Fodd bynnag, ar sail y sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU ar y defnydd posibl o'r pwerau, derbyniaf y diwygiadau canlyniadol a allai godi o gymal 144 fel mân risg gyfansoddiadol a derbyniol.

Rydym wedi cytuno ar eiriad y Datganiad Blwch Dogfennau gyda Llywodraeth y DU ac mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i wneud y datganiad cyn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn Senedd Cymru a fydd yn cael ei chynnal ar 15 Chwefror.

Ar sail y datganiad sy'n cael ei wneud, ac yng ngoleuni'r holl sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU, yr wyf o'r farn bod y risg a gyflwynir gan y darpariaethau bellach yn dderbyniol.

Argymhellion 5 a 6 – Gosod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a Chynnwys y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau na chaiff Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol eu gosod fel arfer dim mwy na phythefnos ar ôl i Fil gael ei gyflwyno yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i). Os bydd angen oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, dylai'r Gweinidog perthnasol ysgrifennu at bwyllgorau priodol y Senedd i roi amcangyfrif iddynt o ran pryd y bydd y Memorandwm yn cael ei gyflwyno.

Ymateb

Mae'n bosibl y gellir gosod y Memoranda o fewn y dyddiad terfyn a nodwyd yn y Rheol Sefydlog ar gyfer Biliau y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cydweithio'n agos arnynt ac yn cytuno arnynt. Mae "fel arfer" yn cydnabod realiti'r hyn sy'n broses amrywiol iawn. Gall maint a chymhlethdod cynyddol y Biliau ac a yw Llywodraeth y DU wedi rhannu darpariaethau drafft, sydd yn ôl ei disgresiwn, cyn eu cyhoeddi, effeithio ar yr amseru o ran gosod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Byddwn yn ystyried diwygio'r canllawiau ffurfiol ar gyfer cwblhau Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol fel rhan o'n hymwneud ag adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol i sicrhau bod ysgrifennu at Bwyllgorau'r Senedd fel y disgrifir yn ofyniad. Yn y cyfamser, wrth osod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn ddiweddar, rydym wedi cynnwys esboniad ynghylch unrhyw oedi o ran ei osod o fewn y Memorandwm ei hun, er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n cael yr wybodaeth lawn.

Yn ogystal, lle bo'n bosibl, rydym wedi gosod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol o fewn y terfyn amser o bythefnos i sicrhau bod Pwyllgorau'r Senedd yn cael cymaint o amser â phosibl i graffu arno. Er enghraifft, gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, Memorandwm Rhif. 3 ar y Bil hwn ar 28 Ionawr, pedwar diwrnod yn unig ar ôl cyflwyno gwelliannau Llywodraeth y DU i'r Bil.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y mae'n eu gosod yn rhoi digon o wybodaeth i'r pwyllgorau perthnasol ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru, ei phryderon, unrhyw atebion y mae'n eu ceisio, ac unrhyw faterion eraill a allai fod yn briodol er mwyn galluogi gwaith craffu llawn ac effeithiol.

Ymateb

Wrth baratoi Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi gwybod yn llawn i'r Aelodau am ei safbwynt o ran cymalau sy'n ymwneud â'r broses o lunio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a'r sefyllfa o ran trafodaethau gyda Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae angen parchu cyfrinachedd, ac efallai na fyddwn bob amser mewn sefyllfa i rannu'r holl wybodaeth a gawn. Mae'r trafodaethau ynglŷn â'r Bil hwn wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ac mae'r canlyniadau wedi'u nodi yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) a osodwyd ar y Bil.

Hyderaf y bydd yr ymateb hwn o gymorth wrth i'r Pwyllgor graffu ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2 Chwefror 2021

Annwyl Huw

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a osodwyd ar 3 Rhagfyr, ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal ('y Bil').

Rwy'n nodi sylwadau'r Pwyllgor ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodwyd ar 1 Medi.

Disodlwyd y safbwynt gan nifer o ddiwygiadau a wnaed i'r Bil a dau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, y naill wedi'i osod ar 17 Rhagfyr 2021 a'r llall ar 28 Ionawr 2022. Mae'r llythyr hwn, felly, yn adlewyrchu'r safbwynt diweddaraf ar y Bil wrth ymateb i argymhellion y Pwyllgor.

Mae fy ymatebion i'ch argymhellion penodol i'w gweld isod.

Argymhelliad 1 - Cymal 87 (Cymal 85 gynt) (Systemau gwybodaeth meddyginiaethau)

Argymhelliad 1

Dylai'r Gweinidog, cyn y cynhelir dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu manylion pellach am y trafodaethau rhynglywodraethol a gafwyd ynghylch cymal 85, a dylai gadarnhau a fydd y diwygiadau y mae wedi'u ceisio yn cael eu cyflwyno i'r Bil gan Lywodraeth y DU.

Ymateb:

Fel y nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) a osodwyd ar 17 Rhagfyr, mae Llywodraeth y DU wedi diwygio'r Bil i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch cymal 87 (cymal 85 gynt).

Mewn perthynas â gwneud defnydd amhriodol o ddata, mae cwmpas y dibenion y gellir gwneud rheoliadau systemau gwybodaeth meddyginiaethau ar eu cyfer o dan gymal 87 yn awr yn gyfyngedig. Mae'r cymal yn awr yn darparu mai dim ond os oes cysylltiad â diogelwch penderfyniadau o'r fath sy'n ymwneud â meddyginiaethau dynol y gellir gwneud darpariaeth yn y rheoliadau at ddibenion sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau clinigol.

Aed i'r afael hefyd â'n pryderon ynghylch argaeledd data i Weinidogion Cymru i'w defnyddio at ddibenion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, megis gwneud penderfyniadau clinigol, a phryderon pellach ynghylch y gorgyffwrdd rhwng casglu data at ddibenion y Gofrestrfa a chasglu data presennol yng Nghymru, yn ogystal â'r ymrwymiad i ymgynghori ar ddarpariaethau a wneir mewn rheoliadau a wneir o dan y darpariaethau. Mae'r cymal yn awr yn darparu bod rhaid i'r is-ddeddfwriaeth honno a wneir oddi tani ddarparu fel y gall Gweinidogion Cymru neu berson a ddynodir ganddynt, megis Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gasglu gwybodaeth, yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig yn yr is-ddeddfwriaeth honno. Mae'r diwygiad yn sicrhau, pan fo'n briodol, fod data yn parhau i fod ar gael i Weinidogion Cymru eu defnyddio.

Yn olaf, yn ogystal â'r mesurau diogelu y cytunwyd arnynt ar wyneb y Bil fel y'i cyflwynwyd, mae'n ofynnol yn awr ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar unrhyw reoliadau neu gyfarwyddiadau sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth meddyginiaethau sy'n berthnasol i Gymru. Ceir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – y bydd Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn ei lunio ac yn cytuno arno ar y cyd – i gefnogi hyn. Rydym wedi egluro wrth Lywodraeth y DU fod angen llunio'r Memorandwm hwn cyn gynted â phosibl, a'r nod yw y bydd yn ei le cyn i'r darpariaethau ddod i rym.

Gyda'i gilydd, rwy'n fodlon bod y diwygiadau a wnaed i'r darpariaethau hyn yn mynd i'r afael â'n prif bryderon ac, o ganlyniad, gallaf yn awr gefnogi'r cymal hwn o'r Bil.

Argymhellion 2 a 3 - Cymalau 88-94 (Cymalau 86-92 gynt): Trosglwyddo swyddogaethau cyrff hyd braich

Argymhelliad 2

Dylai'r Gweinidog, cyn y cynhelir dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu manylion pellach am y trafodaethau rhynglywodraethol a gafwyd ynghylch cymalau 86 i 92, a dylai gadarnhau a fydd y diwygiadau y mae wedi'u ceisio yn cael eu cyflwyno i'r Bil gan Lywodraeth y DU

Ymateb:

Aed i'r afael â'm dau brif bryder yn y maes hwn.

Ar 24 Ionawr 2022, cafodd diwygiad ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU sy'n darparu ar gyfer gofyniad statudol i gael cydsyniad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan gymalau 89 (cymal 87 gynt) (Pŵer i drosglwyddo swyddogaethau rhwng cyrff) neu gymal 90 (cymal 88 gynt) (Pŵer i ddarparu ar gyfer arfer swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol) pan fo'r rheoliadau hynny'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan y Senedd (ac nad yw ond yn gysylltiedig â darpariaeth, neu'n ganlyniadol i ddarpariaeth, a fyddai y tu allan i'r cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw) neu sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru (hy addasu eu cymhwysedd gweithredol).

Mae rhagor o fanylion ynghylch y diwygiad hwn i'w gweld yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) a osodwyd gerbron y Senedd ar 28 Ionawr 2022.

O ran fy mhryderon ynghylch gallu'r Ysgrifennydd Gwladol i drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau eraill oddi wrth Gyrrff Hyd Braich i Weinidogion Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig penodol i Gymru yng nghymal 92 (cymal 90 gynt), i ddatrys hyn, cyflwynodd Llywodraeth y DU hefyd, ar 24 Ionawr, ddiwygiadau sy'n dileu Gweinidogion Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig penodol i Gymru o'r rhestr o "bersonau priodol" yn y cymal, gan fynd i'r afael yn llawn â'n pryderon yn y maes hwn felly.

Yn fy marn i, fel y nodir yn yr ymateb i Argymhelliad 8, isod, mae Llywodraeth y DU wedi mynd i'r afael â'm pryder ynghylch cymal 91, sy'n rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i gymalau 88 neu 90 (cymalau 86 ac 88 gynt) o'r Bil.

Argymhelliad 3

Dylai'r Gweinidog ofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'i phryderon ynghylch cymal 87 fel na all yr Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r pwerau yn y cymal hwnnw i drosglwyddo a/neu ddirprwyo swyddogaethau mewn perthynas ag Awdurdodau Iechyd Arbennig lle cafodd y swyddogaethau hynny eu cyfarwyddo gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Ymateb:

Fel y nodwyd yn fy ymateb i Argymhelliad 2, uchod, ar yr amod y caiff diwygiadau Llywodraeth y DU a osodwyd ar 24 Ionawr eu pasio, dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y gellir arfer y pŵer hwn, ac mae hyn yn mynd i'r afael yn llawn â'n pryderon yn y maes hwn felly.

Argymhellion 4 a 5 - Cymal 136 (Cymal 120 gynt): Trefniadau gofal iechyd rhyngwladol

Argymhelliad 4

Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, roi copi i'r Pwyllgor a holl Aelodau'r Senedd o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth terfynol sydd ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019, a chadarnhau bod testun y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn adlewyrchu cwmpas terfynol, cyfyngedig y Bil fel y'i cytunwyd gan Senedd y DU.

Ymateb:

Mae'n bleser gennyf amgáu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y trefniadau gofal iechyd cilyddol gyda'r llythyr hwn i'w ystyried gan y Pwyllgor, y gallaf gadarnhau ei fod yn adlewyrchu darpariaethau'r Bil fel y'i diwygiwyd ar 23 Tachwedd 2021. Mae pob un o'r pedair gwlad wedi cytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Bydd y Pwyllgor am nodi nad yw'r cysylltiadau ehangach mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethiant newydd ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hyd yma, ond maent yn cael eu hystyried. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r trefniadau newydd ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol maes o law.

Argymhelliad 5

Dylai'r Gweinidog ofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys prawf clir a chymesur ar wyneb y Bil ar gyfer yr hyn sy'n gymwys fel 'amgylchiad eithriadol' yng nghymal 120.

Ymateb:

Ar hyn o bryd, mae adran 1 o Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud taliadau, a threfnu i daliadau gael eu gwneud, mewn perthynas â chost gofal iechyd a ddarperir yn un o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

Bydd cymal 136 (cymal 120 gynt) o'r Bil yn dileu'r pŵer yn adran 1 o Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 ac yn ei ddisodli â phwerau gwneud rheoliadau sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau (a) er mwyn rhoi effaith i gytundeb gofal iechyd (gan gynnwys mewn perthynas â gwneud taliadau) rhwng y DU a naill ai gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU neu sefydliad rhyngwladol, a (b) awdurdodi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud taliad mewn perthynas â gofal iechyd a ddarperir mewn modd heblaw am o dan gytundeb gofal iechyd, mewn gwlad neu diriogaeth y mae gan y DU gytundeb gofal iechyd cilyddol â hi, ond dim ond pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y gellir cyfiawnhau'r taliad drwy amgylchiadau eithriadol.

Diben y pŵer sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ariannu gofal iechyd y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol mewn amgylchiadau eithriadol yw cynorthwyo Llywodraeth y DU i gefnogi anghenion gofal iechyd pobl sy'n preswyllo ym Mhrydain pan fyddant dramor mewn amgylchiadau a allai fel arall ddisgyn, o fewn dim, y tu allan i gytundeb gofal iechyd cilyddol.

Yn y gorffennol, er enghraifft, mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio pwerau presennol o dan Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 i ddarparu cymorth gofal iechyd ar gyfer argyfwng iechyd meddwl i blentyn dan oed yn yr UE pan fo'r Aelod-wladwriaeth wedi dweud nad oedd y driniaeth yn cael ei chynnwys o dan gynllun y Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ariannu triniaeth yn yr UE ar gyfer gefeilliaid sydd â haemangiomâu babandod a gafodd eu geni i rieni sy'n preswyllo yn y DU ond nad oeddent yn gallu teithio'n hawdd yn ôl i'r DU oherwydd cyfyngiadau teithio COVID-19 a'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â theithio ar y pryd. Ni fyddent fel arall wedi bod o fewn cwmplas y darpariaethau sy'n gysylltiedig â thriniaeth wedi'i chynllunio yng nghytundebau gofal iechyd cilyddol yr UE oherwydd gallent fod wedi cael y driniaeth yn y DU heb oedi diangen pe baent wedi bod yn y DU ar y pryd.

Mae taliadau am ofal iechyd y tu allan i'r DU yn fater a gedwir yn ôl oherwydd eu bod yn ymwneud â llesiant pobl y tu allan i'r DU, ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith o sylwedd ar y ddarpariaeth gofal iechyd ddomestig yn y DU, ac nid ydynt ychwaith yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth honno. Pa un a fydd y DU yn penderfynu trefnu ac ariannu gofal iechyd i bobl y tu allan i'r DU ai peidio, ac i ba raddau – mater cysylltiadau rhyngwladol yw hwnnw.

Mae'n debygol mai'r amgylchiadau hynny pan fyddai gwrthod ariannu triniaeth gofal iechyd yn arwain at ganlyniadau llym, na ellir eu cyfiawnhau, i'r unigolyn, i'r graddau fel na fyddai gwrthod cais am gyllid yn ymateb cymesur, yw amgylchiadau eithriadol. Mae'n anorffod bod rhaid cydbwyso unrhyw fuddiannau cyhoeddus â buddiannau'r unigolyn dan sylw sy'n gwrthdaro â'i gilydd wrth benderfynu a ellir cyfiawnhau talu am driniaeth drwy amgylchiadau eithriadol. Byddai ceisio diffinio hyn ymhellach mewn deddfwriaeth sylfaenol drwy gyfeirio at faint neu'r math o ofal iechyd y gellir ei ariannu yn cyfyngu'n ormodol ar

allu'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer y disgrisiwn hwn a byddai'n llesteirio'r gallu i gynorthwyo pobl sy'n preswyllo ym Mhrydain pan fydd arnynt angen fwyaf.

Yn fy marn i, felly, nid yw'n briodol cynnwys prawf clir a chymesur ar wyneb y Bil ar gyfer yr hyn a fyddai'n gymwys fel 'amgylchiad eithriadol' o safbwynt faint neu ba fath o ofal iechyd y gellir ei ariannu y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol oherwydd gallai hyn gael effaith andwyol ar ddarparu cymorth pan fo ei angen, neu gallai gyfyngu ar y cymorth y gellid ei ddarparu.

Argymhelliad 6 - Cymal 142 (Cymal 123 gynt): Rheoleiddio gofal iechyd a phroffesiynau cysylltiedig

Argymhelliad 6

Dylai'r Gweinidog, cyn y cynhelir dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu manylion pellach am y trafodaethau rhynglywodraethol a gafwyd ynghylch cymal 123, a dylai gadarnhau a fydd y diwygiad y mae wedi ei geisio yn cael ei gyflwyno i'r Bil gan Lywodraeth y DU.

Ymateb:

Gallaf gadarnhau bod y diwygiad a geisiwyd gennym wedi'i gyflawni a bod y Bil wedi'i ddiwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 60 o Ddeddf Iechyd 1999, sy'n gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac sy'n dod â grŵp o weithwyr nad ydynt yn weithwyr proffesiynol, ond sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl unigolion, o dan drefniadau rheoleiddio.

Mae rhagor o fanylion ynghylch y diwygiad i'w gweld yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a osodwyd gerbron y Senedd ar 17 Rhagfyr 2021.

Argymhelliad 7 - Cymal 144 ac Atodlen 17 (Cymal 125 ac Atodlen 16 gynt): Hysbysebu bwyd a diod llai iachus

Argymhelliad 7

Dylai'r Gweinidog, cyn y cynhelir dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, ddarparu manylion pellach am y trafodaethau rhynglywodraethol a gafwyd ynghylch cymal 125 ac Atodlen 16 i'r Bil.

Ymateb:

